

Ymchwiliad i Momentum

06 Mawrth 2019

Cynnwys

Crynodeb	1
Momentum, ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau a chymdeithasau aelodau.....	3
Ein hymchwiliad.....	5
Ein canfyddiadau: Troseddau fel ymgyrchydd nad yw'n blaid.....	8
Ein canfyddiadau: Troseddau fel cymdeithas aelodau	13
Ble gallwch gael rhagor o fanylion.....	15

Rydym wedi ymchwilio i Momentum am fethu â chydymffurfio â chyfreithiau cyllid gwleidyddol, fel cymdeithas aelodau ac wrth ymgyrchu yn ystod etholiad cyffredinol 2017. Daethom i'r casgliad fod Momentum wedi troseddu, ac rydym wedi codi dirwy o £16,700 arno.

Mae ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau yn hanfodol er mwyn sicrhau democratiaeth iach. Ond mae'r un mor bwysig i ni sicrhau y gall pleidleiswyr weld ffurflenni gwariant cyflawn a chywir ar ôl etholiad. Dyma'r cyfanswm dirwyon uchaf rydym wedi'i godi ar ymgyrchydd nad yw'n blaid hyd yn hyn am fethu â chyflwyno ffurflen gwariant gyflawn a chywir. Mae'n adlewyrchu'r ffaith bod Momentum wedi diwygio ei ffurflen gwariant sawl gwaith, trefniadau gwael o ran cadw cofnodion a methiant i ddilyn cyngor a roddwyd gan y Comisiwn cyn yr etholiad.

Mae dyletswydd ar ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau a chymdeithasau aelodau i fuddsoddi'n briodol er mwyn sicrhau bod y prosesau priodol ganddynt ar waith a bod ganddynt staff addas i gyflawni eu rhwymedigaethau.

Crynodeb

Roedd Momentum yn ymgyrchydd nad yw'n blaid yn ystod etholiad cyffredinol 2017. Ar ôl hynny, fel sy'n ofynnol, cyflwynodd adroddiad ar ei wariant yn ystod yr etholiad erbyn y dyddiad gofynnol. Fodd bynnag, nid oedd yr adroddiad yn gywir a chyflwynodd Momentum bedair fersiwn bellach ar ôl y dyddiad hwnnw, yr oedd pob un ohonynt yn cofnodi symiau gwahanol o ran rhoddion a gwariant.

Gwnaethom gychwyn ymchwiliad ar 16 Tachwedd 2017 er mwyn penderfynu p'un a wnaeth Momentum dorri cyfreithiau cyllid gwleidyddol – a nodir yn Neddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda (PPERA) 2000 – wrth gyflwyno'r adroddiad anghywir. Wrth ymchwilio, daethom o hyd i dystiolaeth fod Momentum o bosibl wedi cyflawni troseddau pellach, y tro hwn yn ei rinwedd fel cymdeithas aelodau, yn 2016 a 2017. Ehangwyd yr ymchwiliad yn unol â hynny.

Rydym wedi dod i'r casgliad bod Momentum wedi cyflawni nifer o droseddau, ac rydym wedi codi cyfanswm dirwy o £16,700 arno. Digwyddodd y troseddau yn ystod 2016 a 2017. Dyma'r ddirwy fwyaf y mae'r Comisiwn wedi'i gosod ar ymgyrchydd nad yw'n blaid hyd yn hyn am fethu â chyflwyno cofnod gwariant cyflawn a chywir.

Troseddau fel ymgyrchydd nad yw'n blaid

Rydym wedi penderfynu bod Puru Miah, yr unigolyn a oedd yn gyfrifol ar y pryd am Momentum fel ymgyrchydd nad yw'n blaid yn ystod etholiad cyffredinol 2017, wedi cyflawni'r troseddau canlynol:

- un drosedd o dan adran 98(4)(b) o PPERA, sef methu â chyflwyno adroddiad ar roddion ar ôl y bleidlais a oedd yn gyflawn ac yn gywir, heb esgus rhesymol. Roedd gwerth £22,958.46 o roddion y dylid bod wedi'u cofnodi wedi'u hepgor o'r ffurflen. Codwyd dirwy o £2,700 ar Momentum am y drosedd hon
- un drosedd o dan adran 98(4)(b) o PPERA, sef methu â darparu'r holl anfonebau gofynnol i ategu'r ffurflen gwariant, heb esgus rhesymol. Codwyd dirwy o £250 ar Momentum am y drosedd hon
- un drosedd o dan adran 98(4)(b) o PPERA, sef methu â chyflwyno adroddiad ar wariant a oedd yn gyflawn ac yn gywir, heb esgus rhesymol. Codwyd dirwy o £12,150 ar Momentum am y drosedd hon
- un drosedd o dan adran 99(1) o PPERA, sef methu â darparu'r datganiadau gofynnol i ategu'r adroddiad ar roddion ar ôl y bleidlais. Codwyd dirwy o £250 ar Momentum am y drosedd hon

Troseddau fel cymdeithas aelodau

Rydym wedi penderfynu bod y canlynol yn wir:

- Cyflawnodd Michael Chessum, yr unigolyn a oedd yn gyfrifol ar y pryd am Momentum fel cymdeithas aelodau, a Momentum ei hun, drosedd o dan baragraff 12(1)(b) o Atodlen 7 o PPERA. Methodd Mr Chessum â chofnodi rhodd o £10,000 o fewn 30 diwrnod o'i derbyn. Derbyniwyd y rhodd ar 21 Gorffennaf 2016, ond ni chawsom wybod amdani tan 19 Ionawr 2019. Codwyd dirwy o £900 ar Momentum am y drosedd hon.
- Cyflawnodd Mohammed Afridi, yr unigolyn a oedd yn gyfrifol ar y pryd am Momentum fel cymdeithas aelodau, a Momentum ei hun, drosedd o dan baragraff 12(1)(b) o Atodlen 7 o PPERA. Methodd Mr Afridi â chofnodi rhodd o £8,000 o fewn 30 diwrnod o'i derbyn. Derbyniwyd y rhodd ar 3 Mai 2017, ond ni chawsom wybod amdani tan 17 Gorffennaf 2018. Codwyd dirwy o £450 ar Momentum am y drosedd hon.

Momentum, ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau a chymdeithasau aelodau

Momentum

Sefydlwyd Momentum yn 2015. Ym mis Chwefror 2016, cyfarfu'r Pwyllgor Llywio Cenedlaethol a chytunwyd ar strwythur aelodau, ac ym mis Ionawr 2017, cyflwynodd Momentum gyfansoddiad, sy'n nodi bod yn rhaid i weithredwyr Momentum hefyd fod yn aelodau o'r Blaid Lafur neu ddod yn aelodau o'r blaid honno.

Ymgyrchodd Momentum o blaid y Blaid Lafur yn Etholiad Cyffredinol Senedd y DU (UKPGE) a gynhaliwyd ar 8 Mehefin 2017.

Ni chafodd Momentum awdurdod gan y Blaid Lafur i wario y tu hwnt i'r terfynau ar gyfer gwariant a dargedir.

Ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau

Unigolion neu sefydliadau yw ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau sy'n ymgyrchu yn y cyfnod cyn etholiadau, ond nad ydynt yn sefyll fel pleidiau gwleidyddol nac ymgeiswyr.

O dan PPERA, mae rheolau ar faint y gall ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau ei wario ar weithgarwch ymgyrchu a reoleiddir yn ystod y cyfnod cyn etholiadau. Roedd yn ofynnol i ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau a oedd yn bwriadu gwario mwy na £20,000 yn Lloegr neu £10,000 yng Nghymru, yr Alban neu Ogledd Iwerddon yn Etholiad Cyffredinol Senedd y DU, a gynhaliwyd ar 8 Mehefin 2017, gofrestru gyda ni.

Mae PPERA yn nodi'r terfynau ar wariant a reolir ar gyfer ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau. Mae'r terfynau hyn yn is i ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau sy'n awyddus i ymgymryd â 'gwariant a dargedir' oni fyddant wedi cael awdurdod gan y blaid wleidyddol y maent yn ei hyrwyddo. Mae hyn yn wariant y bwriedir iddo ddylanwadu ar bobl i bleidleisio dros un blaid wleidyddol gofrestredig benodol neu unrhyw un o'i hymgeiswyr. Y terfynau yw

- £31,980 yn Lloegr
- £3,540 yn yr Alban
- £2,400 yng Nghymru
- £1,080 yng Ngogledd Iwerddon.

Os bydd y blaid wleidyddol a gaiff ei hyrwyddo wedi rhoi awdurdod, gall yr ymgyrchydd nad yw'n blaid wario hyd at y terfyn a awdurdodir gan y blaid wleidyddol. Byddai unrhyw

wariant hyd at y terfyn hwnnw gan yr ymgyrchydd hwnnw nad yw'n blaid yn cyfrif tuag at derfyn gwariant cenedlaethol y blaid.

Yn dilyn Etholiad Cyffredinol Senedd y DU, roedd yn ofynnol i ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau a wariodd lai na £250,000 gyflwyno eu ffurflenni ar ôl y bleidlais yn nodi gwariant a rhoddion erbyn 8 Medi 2017 fan bellaf.

Mae PPERA yn ei gwneud yn ofynnol i'r ffurflen ar ôl y bleidlais gynnwys gwybodaeth benodol, gan gynnwys y canlynol:

- datganiad o'r holl daliadau a wnaed mewn perthynas â gwariant a reolir yr aed iddo gan neu ar ran yr ymgyrchydd nad yw'n blaid yn ystod y cyfnod perthnasol yn y rhan berthnasol neu'r rhannau perthnasol o'r Deyrnas Unedig;
- datganiad o'r rhoddion perthnasol a dderbyniwyd gan yr ymgyrchydd nad yw'n blaid mewn perthynas â'r etholiad perthnasol sy'n cydymffurfio â'r gofynion adrodd
- rhaid cyflwyno'r holl anfonebau neu dderbynebion sy'n ymwneud â thaliadau dros £200 gyda'r ffurflen.

Ym mhob achos, mae'n drosedd i'r unigolyn cyfrifol gyflwyno ffurflen nad yw'n cydymffurfio â'r gofynion hyn heb esgus rhesymol.

Ar gyfer ymgyrchydd nad yw'n blaid, ystyr rhodd berthnasol yw rhodd a gyflwynir iddo at ddiben bodloni gwariant a reolir yr aed iddo gan neu ar ran y trydydd parti hwnnw.

Pan gyflwynir y ffurflen i ni, rhaid hefyd gyflwyno datganiadau wedi'u llofnodi gan yr unigolyn sy'n gyfrifol am wariant a rhoddion.

Mae'r datganiad ar gyfer rhoddion yn cadarnhau'r canlynol:

- bod yr holl roddion perthnasol a gofnodir ar y ffurflen gan roddwyr a ganiateir
- na dderbyniwyd unrhyw roddion perthnasol eraill mewn perthynas â'r etholiad perthnasol yn ystod y cyfnod a reoleiddir

Bydd yr unigolyn cyfrifol yn troseddu os bydd yn methu â darparu'r datganiad.

Cymdeithasau aelodau

Nid yw cymdeithas aelodau yn blaid wleidyddol. Mae'n sefydliad sy'n llwyr neu'n bennaf yn cynnwys aelodau o un blaid wleidyddol gofrestredig. Yr unigolyn cyfrifol ar gyfer cymdeithas aelodau fydd naill ai'r trysorydd, os oes trysorydd, neu'r unigolyn y rhoddir gwybod i ni ei fod yn gweithredu fel yr unigolyn cyfrifol.

Rhaid i gymdeithasau aelodau sy'n derbyn rhoddion gwerth mwy na £7,500 a ddarperir er mwyn cefnogi eu gweithgareddau gwleidyddol, roi gwybod amdanynt o fewn 30 diwrnod o'u derbyn. Mae methu â rhoi gwybod i ni am roddion o'r fath o fewn y cyfnod gofynnol, heb esgus rhesymol, yn drosedd gan y gymdeithas aelodau a chan yr unigolyn cyfrifol.

Ein hymchwiliad

Gwnaethom ymchwilio i ganfod p'un a oedd Momentum wedi torri cyfreithiau cyllid ymgyrchu ar ôl i ni dderbyn adroddiad gwariant a rhoddion nad oedd yn cydymffurfio ar ôl yr etholiad cyffredinol.

Wrth ymchwilio, daethom o hyd i dystiolaeth fod Momentum o bosibl wedi cyflawni troseddau pellach, y tro hwn yn ei rinwedd fel cymdeithas aelodau yn 2016 a 2017. Ehangwyd yr ymchwiliad yn unol â hynny.

Ar 8 Medi 2017, cyflwynodd Momentum ei ffurflen gwariant ar gyfer etholiad cyffredinol 2017. Gwnaethom nodi nifer o faterion mewn perthynas â'r ffurflen. Gwnaethom ohebu â Momentum, ac yn ystod y broses, cyflwynodd Momentum ddau adroddiad ar wariant wedi'u diweddarau, ar 10 Tachwedd 2017 a 13 Tachwedd 2017, yn ogystal ag adroddiad ar roddion wedi'i ddiweddarau ar 13 Tachwedd 2017.

O ganlyniad, gwnaethom amau yn rhesymol bod y ffurflen wreiddiol yn anghywir. Gwnaethom gychwyn ymchwiliad ar 16 Tachwedd 2017, gan archwilio'r canlynol:

- materion yn ymwneud â threfniadau Momentum ar gyfer cofnodi rhoddion a gwariant
- anfonebau coll
- datganiad coll
- p'un a aeth gwariant Momentum o bosibl y tu hwnt i'r terfynau cyfreithiol

Daethom o hyd i dystiolaeth a awgrymodd y gallai Momentum fod wedi methu â chofnodi rhoddion a dderbyniwyd fel cymdeithas aelodau, ac ehangwyd cwmpas yr ymchwiliad er mwyn adolygu hyn hefyd.

Gwnaethom ymdrechu hefyd i gael cofnod llawn a chywir o'i wariant yn ystod yr etholiad.

Tystiolaeth yn ein hymchwiliad

Yn ystod yr ymchwiliad, cawsom dystiolaeth gan y canlynol:

- Momentum
- Mr Miah
- yr undeb llafur gofrestredig, y Gymdeithas i Staff Trafnidiaeth Cyflogedig (TSSA)
- Mr Afridi a Mr Chessum

Roedd y dystiolaeth a ystyriwyd gennym yn cynnwys y canlynol:

- Trydedd fersiwn o'r adroddiad ar wariant a ddarparwyd gan Momentum ar 22 Ionawr 2018
- cyngor a roddwyd gennym i Momentum cyn yr etholiad cyffredinol
- esboniadau gan Momentum.
- cofnodion ariannol Momentum, gan gynnwys:
 - cyfriflenni banc a PayPal
 - gwybodaeth am y gyflogres
 - cyfriflenni cardiau credyd
 - anfonebau
 - adroddiadau ar drafodion
- dogfennau mewnol Momentum, gan gynnwys:
 - adroddiadau mewnol
 - cofnodion ac agendâu cyfarfodydd
 - gohebiaeth a chanllawiau mewnol
 - dogfennaeth adroddiadau ariannol mewnol
- gohebiaeth rhwng Momentum a TSSA
- negeseuon e-bost mewnol TSSA a ddarparwyd gan TSSA

Gweithio gyda Momentum

Ni chawsom gydweithrediad llawn gan Momentum yn ystod yr ymchwiliad.

Darparodd Momentum rywfaint o'r wybodaeth a'r esboniadau y gofynnwyd amdanynt, ond nid y cyfan, ond gwnaeth hefyd herio sail ein hymchwiliad a'r wybodaeth yr oeddem yn gofyn amdani. Roedd rhai o'r esboniadau diweddarach a'r dystiolaeth yn mynd yn groes i rai o'r esboniadau. Bu'n rhaid i ni ofyn am eglurhad dro ar ôl tro, a gwnaeth Momentum geisiadau am nifer o estyniadau i'r cyfnodau ymateb, a chytunwyd i hynny, gan ychwanegu'n sylweddol at hyd a chymhlethdod yr ymchwiliad.

Cynigiodd Mr Miah i ddarparu fersiwn pellach o'r cofnod a'r wybodaeth yr oedd y Comisiwn wedi gofyn amdano ond nad oedd wedi'i gyflwyno. Ar y sail y byddai gwybodaeth yn cael ei darparu, fe wnaethom ei wahodd, ac fe gytunodd i ddod am gyfweliad gwirfoddol i roi esboniad unwaith bod y wybodaeth wedi'i ddarparu. Roedd y cyfweliad fod i gael ei gynnal ym mis Hydref 2018, ond methodd Mr Miah â darparu'r wybodaeth na'r fersiwn pellach o'r cofnod yr oedd wedi cytuno i roi i ni'n flaenorol. Felly ni aeth y cyfweliad yn ei flaen.

Roeddem yn fodlon ar y pryd ein bod wedi rhoi digon o gyfle i Momentum a Mr Miah i esbonio'r gwariant a reoleiddir yn yr etholiad cyffredinol, ac i roi unrhyw esboniad yr oeddent am i ni ei ystyried.

Penderfynwyd dod â'r ymchwiliad i ben ym mis Tachwedd 2018 gan nad oeddem o'r farn ei fod yn gymesur nac o fudd i'r cyhoedd i ni barhau â'r ymchwiliad yn seiliedig ar y canlynol:

- nifer y troseddau yr oeddem yn fodlon eu bod wedi'u profi y tu hwnt i amheuaeth resymol
- methiant Mr Miah a Momentum i ddarparu'r wybodaeth a'r esboniadau gofynnol
- hyd yr amser a'r adnoddau a ddefnyddiwyd eisoes ar yr ymchwiliad

Ein penderfyniadau

Ym mis Tachwedd 2018, roeddem yn fodlon bod digon o dystiolaeth i wneud penderfyniadau cychwynnol ar y troseddau yr oeddem yn ymchwilio iddynt.

Gwnaethom gyflwyno hysbysiad statudol i Momentum o dan Atodlen 19C o PPERA yn nodi ein penderfyniadau cychwynnol ac yn cynnig cosbau. Fel rhan o'r hysbysiad, estynnwyd gwahoddiad i Momentum gyflwyno sylwadau o fewn y cyfnod statudol o 28 diwrnod.

Ar 17 Ionawr 2019, cyflwynodd Momentum ei sylwadau mew perthynas â'r cosbau arfaethedig. Cyflwynwyd adroddiad ar roddion o 2016 nad oeddem wedi'i weld yn flaenorol ac adroddiad rhannol ar ôl y bleidlais yn nodi rhodd nas cofnodwyd yn flaenorol hefyd ar y dyddiad hwn. Gwnaethom eu hystyried yn ofalus cyn gwneud penderfyniad terfynol ar y troseddau a'r cosbau.

Gwnaethom gyhoeddi ein penderfyniadau terfynol a'r cosbau i Momentum ar 4 Mawrth 2019.

Ein canfyddiadau: Troseddau fel ymgyrchydd nad yw'n blaid

Cyflawnodd Mr Miah bedair trosedd mewn perthynas â chyflwyno adroddiadau ar wariant a rhoddion ar ôl y bleidlais yn dilyn yr etholiad cyffredinol. Cyflawnodd Momentum a'r unigolion cyfrifol perthnasol droseddau drwy fethu â rhoi gwybod am roddion a dderbyniwyd gan Momentum yn ei rinwedd fel cymdeithas aelodau yn ystod 2016 a 2017.

Rhoddodd Mr Miah ffurflen gwariant ar etholiad cyffredinol i ni ar ran Momentum a oedd yn anghyflawn am y rhesymau canlynol:

- nid oedd yn darparu datganiad cywir o'r taliadau a wnaed
- nid oedd yn darparu'r holl anfonebau na derbynebion gofynnol
- roedd yn hepgor rhoddion
- nid oedd yn darparu datganiad gofynnol i ategu'r adroddiad ar roddion.

Ni nodwyd trosedd gennym mewn perthynas â gwariant y tu hwnt i derfynau'r wlad.

Datganiad o'r taliadau a wnaed

Nid oedd y ffurflen gwariant yn cydymffurfio â'r gofyniad i ddarparu datganiad cywir o'r holl daliadau a wnaed gan neu ar ran Momentum mewn perthynas â gwariant a reolir.

Roedd y datganiad o daliadau a gyflwynwyd i ni yn anghywir am y rhesymau canlynol:

- roedd gwariant ledled y DU wedi'i briodoli i Ogledd Iwerddon er gwaethaf y ffaith nad oedd unrhyw ymgeiswyr o'r Blaid Lafur yn sefyll yno
- roedd nifer o daliadau wedi'u hepgor ym mhob fersiwn o'r ffurflen a gyflwynwyd gan Momentum
- nid oedd nifer o'r eitemau a gofnodwyd yn cyfateb i gofnodion ariannol Momentum ar y pryd
- roedd nifer fawr o eitemau, gan gynnwys cyflogau, wedi'u rhannu rhwng gwariant a reoleiddir a gwariant nas rheoleiddir, gan ddefnyddio gwahanol fformiwla i'w rhannu ym mhob fersiwn o'r ffurflen a dderbyniwyd gennym. Ym mhob achos, roedd nifer o'r fformiwlaâu yn anghywir ac yn mynd yn gwbl groes i'n cyngor a'n canllawiau.

Nodir y diwygiadau cyffredinol a wnaed i'r datganiad o daliadau gan bob fersiwn o'r adroddiad isod:

- Ar 8 Medi 2017, nododd Momentum ei fod wedi gwario £40,186.92 yn ei ddatganiad o'r taliadau a wnaed. Fodd bynnag, ar y ffurflen ei hun, nodwyd cyfanswm gwariant o £32,316.57 gan fod nifer fawr o'r ffigurau wedi'u nodi fel symiau negyddol neu gyfansymiau a gamgyfrifwyd.
- Ar 10 Tachwedd 2017, diwygiodd Momentum 29 o linellau gwariant, gan ddatgan £36,033.37 yn ei ddatganiad o'r taliadau a wnaed.
- Ar 10 Tachwedd 2017, diwygiwyd 13 o linellau gwariant pellach, gan newid y swm a ddatganwyd ar ei ddatganiad o daliadau i £34,917.06.
- Ar 22 Ionawr 2018, cyflwynodd Momentum ddatganiad o daliadau pellach a ddiwygiodd 43 o linellau gwariant, gan ailddatgan symiau a gafodd eu dileu yn flaenorol mewn rhai achosion, a chan ddatgan cyfanswm o £32,591.14.

Mae'r rhain yn cyfeirio at y datganiad o daliadau a wnaed yn unig ac nid ydynt yn cynnwys gwariant tybiannol a gofnodir ar ran arall o'r ffurflen ond sy'n berthnasol wrth ystyried y terfynau gwariant.

Gogledd Iwerddon

Roedd pob un o'r ffurflenni a ddarparodd Momentum wedi dosrannu gwariant ledled y DU i Ogledd Iwerddon. Nid oedd unrhyw ymgeiswyr o'r Blaid Lafur yn sefyll yng Ngogledd Iwerddon, ac felly ni ellir priodoli unrhyw wariant a reolir iddi. Dylid bod wedi dosrannu'r gwariant hwn rhwng Cymru, Lloegr a'r Alban lle yr oedd ymgeiswyr o'r Blaid Lafur yn sefyll.

Eitemau nad oeddent yn cyfateb i'r cofnodion ariannol

Nid oedd y cyflogau a gofnodwyd ar gyfer dau swyddog y wasg a weithiodd ar is-etholiadau Stoke a Copeland yn cyfateb i unrhyw gyflogau a dalwyd yn ystod y cyfnod hwnnw yn ôl cofnodion mewnol Momentum. Methodd Momentum â darparu enwau'r swyddogion y wasg hynny er mwyn i ni allu cysoni'r ffigurau.

Eitemau nas cynhwyswyd ar y ffurflen

Nododd ein dadansoddiad o gofnodion ariannol Momentum fod cyfanswm gwariant o £1,075.06 o leiaf wedi'i hepgor o'r ffurflen. Mae'n bosibl bod y ffigur hwn mewn gwirionedd yn uwch, gan nad ydym yn fodlon bod y costau cyflog a gynhwyswyd yn y swm hwn yn gywir.

Gwariant a rannwyd rhwng gwariant a reoleiddir a gwariant nas rheoleiddir

Diwygiodd Momentum amrywiol fformiwlâu a ddefnyddiwyd i gyfrifo elfennau cofnodadwy taliadau mwy o faint, er enghraifft, mewn perthynas â gwasanaeth negeseuon testun.

Ni lwyddodd Momentum i ddarparu cofnodion o gyfnod yr ymgyrch i egluro'r ffordd yr aeth ati i rannu cyflogau staff rhwng gwariant a reoleiddir (sef cyfran sylweddol o'r gwariant a gofnodwyd ganddo) a gwariant nas rheoleiddir.

O ran dosrannu amser staff i negeseuon e-bost yn ymgyrchu a anfonwyd at aelodau (nad oes angen ei gofnodi) ac unigolion nad ydynt yn aelodau (dylid ei gofnodi), defnyddiodd

Momentum fformiwla wahanol i'r fformiwla a awgrymir gennym, gan arwain at ddosraniad sylweddol is i wariant a reoleiddir nag a fyddai wedi bod yn wir pe byddai wedi dilyn ein cyngor. Mae yna faterion eraill o ran dosrannu gwariant, gan gynnwys cyflogau staff ac eitemau llai, lle y cymhwyswyd fformiwla dosrannu anghywir yn groes i'n canllawiau.

Ni lwyddodd Momentum i ddarparu unrhyw ddogfennaeth o gyfnod yr ymgyrch a fyddai wedi ein galluogi i ddosrannu'r gwariant yn gywir, gan iddo fethu â chadw a chynnal cofnodion o'r cyfnod hwnnw.

Casgliadau

Rydym yn fodlon bod yr adroddiad o daliadau a reoleiddir a wnaed ar gyfer etholiad cyffredinol 2017 a gyflwynwyd i ni gan Momentum yn anghywir mewn sawl ffordd. Mae'r methiant i gadw a chynnal cofnodion priodol o'r ffordd y cafodd gwariant ei rannu rhwng gwariant a reoleiddir a gwariant nas rheoleiddir yn golygu nad ydym yn fodlon o hyd bod gennym ni na Momentum gofnod cywir o wariant a reoleiddir gan Momentum yn ystod etholiad cyffredinol 2017.

Anfoneb a hepgorwyd

Methodd Mr Miah â chydymffurfio â'r gofyniad i ddarparu'r holl anfonebau neu dderbynebon gofynnol gyda ffurflen gwariant Momentum. Ni chynhwyswyd anfoneb ar gyfer taliad o £492.41 i Facebook, yr aed iddo ar 31 Mai 2017 ac a dalwyd ar 3 Mehefin 2017. Dywedodd Mr Miah mai gwall dynol a systemau annigonol oedd yn gyfrifol am yr hepgoriad.

Rhoddion a hepgorwyd

Roedd yn ofynnol i Momentum gynnwys adroddiad ar roddion fel rhan o'r ffurflen ar ôl y bleidlais.

Ar 8 Medi 2017, nododd Mr Miah nad oedd Momentum wedi derbyn unrhyw roddion dros £7,500 a'i fod wedi derbyn rhoddion dros £500 (ond yn llai na £7,500) â chyfanswm gwerth o £7,300. Newidiodd Mr Miah y swm a dderbyniwyd i £7,500 ar 13 Tachwedd.

Fodd bynnag, nid oedd yr adroddiad ar roddion yn cynnwys pum rhodd arian parod ychwanegol â gwerth cyfun o £12,620, nac un rhodd nad oedd ar ffurf arian parod o £10,338.46.

Rhoddion arian parod

Yn ystod yr ymchwiliad, cadarnhaodd Momentum na rhoddwyd gwybod i ni am y rhoddion arian parod yn yr adroddiad ar ôl y bleidlais fel yr oedd yn ofynnol. Cofnodwyd pob rhodd arian parod mewn ffurflen ddiwygiedig ar ôl y bleidlais ar 17 Gorffennaf 2018.

Rhodd nad oedd ar ffurf arian parod

Derbyniodd Momentum rodd nad oedd ar ffurf arian parod ar ffurf gofod swyddfa gan yr undeb gofrestredig, y Gymdeithas i Staff Trafnidiaeth Cyflogedig (TSSA) gwerth £10,338.46 ar 27 Ebrill 2017.

O ran y rhodd hon, ymddengys fod Mr Afridi, sef ysgrifennydd Momentum fel ymgyrchydd nad yw'n blaid ar y pryd, wedi ceisio rhoi gwybod i ni amdani ar 16 Mai 2017 mewn adroddiad cyn y bleidlais, ond ni chwblhaodd y broses o gyflwyno'r wybodaeth. Beth bynnag, ni ddechreuodd y cyfnod adrodd cyn y bleidlais tan 3 Mai 2017 a derbyniwyd y rhodd hon ar 27 Ebrill 2017, felly nid oedd angen rhoi gwybod amdani yn ystod y cyfnod adrodd cyn y bleidlais. Fodd bynnag, wedyn methodd Momentum â rhoi gwybod am y rhodd hon yn yr adroddiad ar ôl y bleidlais fel yr oedd yn ofynnol.

Dywedodd Momentum wrthym nad at ddibenion yr etholiad cyffredinol y gwnaed y rhodd hon. Fodd bynnag, gwelsom dystiolaeth i'r gwrthwyneb, gan gynnwys dogfennaeth fewnol Momentum yn nodi bod y rhodd wedi'i darparu ar ôl cyhoeddi'r etholiad cyffredinol. Gwelsom hefyd ohebiaeth rhwng Momentum a TSSA lle y gofynnodd un o uwch gynrychiolwyr Momentum am gael defnyddio llawr gwaelod Walkden House “*for the duration of the general election campaign*”.

Rhoddodd Momentum wybod am y rhodd hon ar 19 Ionawr 2019.

Datganiad i ategu'r adroddiad ar roddion (ffurflen gwariant)

Pan gyflwynodd Mr Miah yr adroddiad ar roddion a oedd yn rhan o ffurflen gwariant etholiad cyffredinol Momentum, roedd yn ofynnol iddo lofnodi datganiad i gadarnhau bod y rhoddion a gofnodwyd ar y ffurflen wedi'u rhoi gan roddwyr a ganiateir ac nad oedd unrhyw roddion eraill perthnasol wedi'u derbyn. Ni wnaeth hyn. Ar 13 Tachwedd 2017, darparodd Mr Miah adroddiad diwygiedig, gan ddefnyddio ein ffurflen gywir y tro hwn, a oedd yn cynnwys datganiad wedi'i lofnodi.

Terfynau gwariant

Roedd terfynau gwariant Momentum ym mhob gwlad ar gyfer Etholiad Cyffredinol Senedd y DU 2017 (ac eithrio Gogledd Iwerddon lle nad oedd unrhyw ymgeiswyr Llafur) fel a ganlyn:

- £31,980 yn Lloegr
- £3,540 yn yr Alban
- £2,400 yng Nghymru
- **Cyfanswm o £37,920**

Datgelodd ffurflen wreiddiol Momentum wariant a oedd y tu hwnt i derfynau'r gwledydd. Fodd bynnag, llwyddodd diwygiadau dilynol a wnaed gan Momentum i leihau'r gwariant a gofnodwyd ond roedd y gwariant hwnnw yn uwch na'r terfyn gwariant yng Nghymru o hyd.

Nid ydym wedi dod o hyd i dystiolaeth bod Mr Miah wedi troseddu drwy fynd i wariant a reolir y tu hwnt i'r terfyn a bennwyd yn Atodlen 10 o PPERA lle roedd yn gwybod neu lle y dylai fod wedi gwybod yn rhesymol y byddai'r gwariant yn mynd y tu hwnt i'r terfyn hwnnw, sy'n drosedd o dan adran 94E(2) o PPERA.

Daethom o hyd i dystiolaeth a oedd yn nodi gwariant y tu hwnt i'r terfynau. Fodd bynnag, ni allwn ddod i ganfyddiad o drosedd gan nad oedd y wybodaeth a ddarparwyd gan

Momentum, ac y credwn sydd yn ei feddiant yn ein barn ni, yn ddigonol i ddarparu cofnod dibynadwy o'i wariant a reolir.

Ein canfyddiadau: Troseddau fel cymdeithas aelodau

Roedd Momentum yn gymdeithas aelodau, ac mae'n parhau'n gymdeithas aelodau, fel y'i diffinnir gan PPERA. Gwirfoddolodd Mr Michael Chessum yn drysorydd Momentum yn fuan ar ôl Chwefror 2016. Felly, ef oedd yr unigolyn cyfrifol o dan gyfraith etholiadol. Ar 17 Chwefror 2017, penodwyd Mohammed Afridi fel yr unigolyn cyfrifol.

Rhodd arian parod o £10,000 gan y Gymdeithas i Staff Trafnidiaeth Cyflogedig

Cafodd Momentum rodd arian parod gan y Gymdeithas i Staff Trafnidiaeth Cyflogedig (TSSA) ar 21 Gorffennaf 2016, a derbyniodd y rhodd honno. Felly, roedd yn ofynnol i Mr Chessum a Momentum roi gwybod i ni am y rhodd hon erbyn 21 Awst 2016.

Cawsom wybod am y rhodd hon gan TSSA ar 17 Ionawr 2019, bron i ddwy flynedd a hanner ar ôl cael y rhodd a'i derbyn, ac yn dilyn ymchwiliad a'r penderfyniad i gyflwyno hysbysiad o sancsiynau arfaethedig i Momentum.

Dywedodd Momentum bod dryswch ymysg y staff p'un a bod y rhodd yma'n un y dylir ei adrodd ai peidio. Derbyniodd Momentum y rhodd, a Mr Chessum, mewn gwirionedd, oedd yr unigolyn cyfrifol ar y pryd, gan hyd yn oed lofnodi adroddiad a oedd yn ymwneud â rhodd arall ar 15 Gorffennaf 2016.

Pe byddai'r dystiolaeth wedi ategu'r datganiad bod hanner y rhodd wedi'i bwriadu ar gyfer sefydliad ar wahân, byddai wedi bod yn ofynnol o hyd i Momentum a Mr Chessum roi gwybod am y £5,000 gan y byddai wedi cael ei gyfuno â symiau eraill a gafwyd gan TSSA.

Cyflawnodd Mr Chessum a Momentum ill dau drosedd drwy fethu â chyflwyno adroddiad yn rhoi gwybod i ni am y rhodd honno o £10,000 o fewn 30 diwrnod o'i derbyn, heb esgus rhesymol.

Rhodd arian parod o £8,000 gan y Gymdeithas i Staff Trafnidiaeth Cyflogedig

Penodwyd Mohammed Afridi fel yr unigolyn cyfrifol ar gyfer Momentum, fel cymdeithas aelodau, ar 17 Chwefror 2017.

Cafodd Momentum rodd arian parod o £8,000, hefyd gan TSSA, ar 3 Mai 2017.

Ar 16 Mai 2017, ceisiodd Mr Afridi roi gwybod am y rhodd hon o dan y gofynion adrodd cyn y bleidlais ar gyfer etholiad cyffredinol 2017, gan ddefnyddio ein system adrodd ar-lein. Ond ni ddarparwyd yr holl wybodaeth ofynnol, a methodd â chwblhau'r broses o gyflwyno'r wybodaeth. Beth bynnag, nid oedd y rhodd yn eitem i'w chofnodi o dan y gofynion hynny a dylid bod wedi'i chofnodi fel rhodd a wnaed i gymdeithas aelodau.

Roedd y wybodaeth a gafwyd gan Mr Afridi a Momentum am y rhodd hon yn gwrth-ddweud ei gilydd, gan gynnwys gwybodaeth yn nodi nad oedd y sefydliad na Mr Afridi yn ymwybodol eu bod wedi cael y rhodd hon. Fodd bynnag, roeddem yn fodlon ar y dystiolaeth bod Mr Afridi wedi cael gwybod am y rhodd cyn 16 Mai 2017. Roedd hyn yn amlwg mewn nifer o ddogfennau mewnol Momentum o'r cyfnod, yn ogystal â'i ymgais aflwyddiannus i roi gwybod am y rhodd ar ffurflen cyn y bleidlais.

Rhodddwyd gwybod am y rhodd ar 17 Gorffennaf 2018.

Cyflawnodd Mr Afridi a Momentum ill dau drosedd drwy fethu â chyflwyno adroddiad yn rhoi gwybod i ni am y rhodd honno o fewn 30 diwrnod o'i derbyn, heb esgus rhesymol.

Y penderfyniad o ran sancsiynau

Gwnaethom ystyried ein canfyddiad a'r sylwadau a wnaed gan Momentum ac rydym wedi cyhoeddi'r cosbau canlynol:

- £2,700 am fethu â chofnodi'r holl roddion ar y ffurflen gwariant, heb esgus rhesymol.
- £250 am fethu â darparu anfoneb gyda'r ffurflen gwariant, heb esgus rhesymol.
- £12,150 am fethu â darparu ffurflen gwariant gyflawn, heb esgus rhesymol.
- £250 am fethu â darparu anfoneb gyda'r ffurflen gwariant, heb esgus rhesymol.
- £900 am fethu â rhoi gwybod am rodd o £10,000 gan TSSA, heb esgus rhesymol.
- £450 am fethu â rhoi gwybod am rodd o £8,000 gan TSSA, heb esgus rhesymol.

Ble gallwch gael rhagor o fanylion

Mae gwybodaeth am PPERA ar gael ar [wefan deddfwriaeth y llywodraeth](#). Mae'r adrannau a'r atodlenni perthnasol fel a ganlyn:

- Adran 86 (priso gwariant tybiannol)
- Adran 88(1) (diffiniad o drydydd parti cydnabyddedig)
- Adran 94D (terfynau ar wariant a reolir)
Rydym hefyd yn cynnig [canllawiau](#) ar hyn.
- Adran 94E (mynd y tu hwnt i derfynau gwariant a dargedir) Adran 96 (ffurflen gwariant a reolir, gofynion)
- Adran 98 (ffurflen gwariant a reolir, trosedd)
- Adran 99 (datganiad rhoddion, gofyniad)
- Atodlen 7 (diffiniad o gymdeithas aelodau a'r rheolau sy'n gysylltiedig ag adrodd)
- Atodlen 10 Paragraff 2 (dosrannu gwariant i wahanol rannau o'r DU)
- Atodlen 11 Paragraff 1(4) (datganiad rhoddion, rhodd berthnasol)
- Atodlen 11, paragraff 5 (priso rhodd mewn nwyddau)